

**Bwrdd Cynghori Cymru ar Gynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân**  
**16 Hydref 2018, Canolfan Hyfforddi a Datblygu Porth Caerdydd**

**Cofnodion**

**Aelodau**

Michael Prior (MP) Cadeirydd Annibynnol

**Aelodau Cyflogwyr**

Y Cyng. Sue Pickering (SP) Awdurdod Tân ac Achub De Cymru  
Y Cyng. Claire Mills (CM) Awdurdod Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru  
Y Cyng. John Brynmor Hughes (JBH) Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru

**Aelodau Gweithwyr**

Ade Robinson (AR) Cymdeithas y Swyddogion Tân  
Grant Mayos (GM) Undeb y Brigadau Tân, Aelod y Cyngor Gweithredol dros Gymru  
Richard Fairhead (RF) Cymdeithas yr Arweinwyr Tân  
(*Cymdeithas y Prif Swyddogion Tân yn flaenorol*)

**Swyddogion yn bresennol**

Helen MacArthur (HM) Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru  
Kevin Jones (KJ) Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru  
Mark Malson (MMA) Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru

**Eraill yn bresennol**

Chris Mulholland (CM) Adran Actiwari'r Llywodraeth  
Clair Alcock (CA) Cymdeithas Llywodraeth Leol

**Swyddogion Llywodraeth Cymru (Gweinyddiaeth)**

Kerry Citric (KC) Cangen y Gwasanaethau Tân  
Cerys Myers (CLM) Cangen y Gwasanaethau Tân  
Natalie Spiller (NS) Cangen y Gwasanaethau Tân

**Arsylwyr**

Chris Barton (CB) Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru  
Mark Miles (MM) Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru  
Martin Morgan Cyngor Sir Gaerfyrddin  
Jennifer Kingsbury Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf

**Ymddiheuriadau**

Y Cyng. Bryan Apsley Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru  
Sean Starbuck Undeb y Brigadau Tân  
Adrian Hughes Cymdeithas Gwasanaethau Tân ac Achub  
(*yr Undeb Diffoddwyr Tan Wrth Gefn yn flaenorol*)

## **1. EITEM 1 YR AGENDA – CROESO A CHYFLWYNIADAU**

- 1.1 Croesawodd MP bawb i'r cyfarfod, yn arbennig yr aelodau newydd, sef Ade Robinson a Richard Fairhead. Croesawodd MP hefyd Helen MacArthur a oedd yn bresennol am y tro cyntaf, y Cyng. Hughes, a oedd yn bresennol ar ran y Cyng. Apsley a gweinyddwyr y cynllun, Martin Morgan a Jennifer Kingsbury. Croesawodd MP hefyd Chris Mulholland o Adran Actiwari'r Llywodraeth (GAD), a Clair Alcock o'r Gymdeithas Llywodraeth Leol.
- 1.2 Dywedodd MP mai hwn oedd un o gyfarfodydd pwysicaf y Bwrdd Cynghori hyd yn hyn a diolchodd i bawb am fod yn bresennol. Esboniodd MP fod gweinyddwyr y cynllun wedi'u gwahodd i roi cyngor ar gymhlethdod y dewisiadau amrywiol ar gyfer unioni'r achos o dorri'r cap costau gan mai hwy fyddai'n gyfrifol am wneud yr addasiadau angenrheidiol i bensiynau unigolion.
- 1.3 Mynegodd CLM ymddiheuriadau ar ran y Cyng. Bryan Apsley, Adrian Hughes a Sean Starbuck.
- 1.4 Cadarnhaodd yr aelodau nad oedd unrhyw wrthdaro buddiannau i'w datgan.

## **2. EITEM 2 YR AGENDA – COFNODION Y CYFARFOD DIWETHAF**

- 2.1 Cyfeiriodd MP at gofnodion y cyfarfod diwethaf a gynhaliwyd ar 20 Mawrth a gwahodd yr aelodau i gytuno ar gywirdeb y cofnodion. Ni wnaed unrhyw sylwadau a chytunwyd bod y cofnodion yn gofnod gwir.
- 2.2 Gofynnodd GM am i gofnodion cyfarfodydd y Bwrdd Cynghori gael eu dosbarthu o fewn 7 diwrnod i'r cyfarfod. Esboniodd MP fod y broses yn cymryd amser oherwydd bod yn rhaid iddo gymeradwyo'r cofnodion cyn eu dosbarthu ond mai'r targed oedd eu cyflwyno o fewn 14 diwrnod i'r cyfarfod.

## **MATERION YN CODI**

- 2.3 Cyfeiriodd MP at y camau gweithredu o'r cyfarfod diwethaf. Esboniodd MP y gwnaed cynnydd ar y mwyafrif o'r eitemau ond y byddai'r drafodaeth yn cael ei gohirio tan y cyfarfod nesaf er mwyn canolbwyntio ar y Prisiad. Roedd yr aelodau wedi cael dogfen fer er mwyn iddynt weld y cynnydd a wnaed. Byddai'r agenda yn ymdrin â diweddariadau ar Gyflog Pensiynadwy a Byrddau Pensiwn Lleol.

## **3. EITEM 3 YR AGENDA – PRISIAD 2016**

- 3.1 Cyfeiriodd MP at y ddogfennaeth a ddarparwyd i'r Bwrdd Cynghori a oedd yn cynnwys llythyr comisiynu gan Lywodraeth Cymru yn gofyn am argymhellion y Bwrdd Cynghori ar unioni'r achos o dorri'r cap costau erbyn 7 Rhagfyr. Roedd yr aelodau hefyd wedi cael copi o gyflwyniad gan GAD yn crynhoi canlyniadau'r prisiad a'r dewisiadau posibl ar gyfer unioni'r achos o dorri'r cap costau, canlyniadau llawn y prisiad dros dro, yn ogystal â gohebiaeth rhwng Prif Ysgrifennydd y Trysorlys ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Lywodraeth Leol a

Gwasanaethau Cyhoeddus. Nododd GM fod yr amserlen ar gyfer darparu ymateb i Lywodraeth Cymru yn fyrrach na'r amserlen i Fwrdd Cynghori Lloegr ar y Cynllun. Esboniodd KC fod Llywodraeth Cymru wedi ysgrifennu at aelodau Bwrdd Cynghori Cymru ar 6 Medi yn esbonio y bu achos o dorri'r cap costau a'r camau y byddai'n rhaid i'r aelodau eu cymryd. Yn dilyn hyn cafwyd copi llawn o ganlyniadau'r prisiad ar 20 Medi. Cafodd y cais ei ffurfioli yn y llythyr comisiynu ar 8 Hydref, ond roedd yr aelodau wedi cael yr wybodaeth berthnasol i ddechrau ar eu hystyriaethau eu hunain cyn gynted ag y cafwyd yr wybodaeth gan GAD. Roedd cyfyngiadau amser ar bob cynllun oherwydd yr oedi wrth i Drysorlys EM gyhoeddi'r cyfarwyddiadau prasio pensiwn, a ddylai fod wedi'u cwblhau a'u rhannu â Bwrdd Cynghori Cymru fis Tachwedd diwethaf.

### ***Canlyniadau Prisiad Dros Dro 2016 a'r Broses Cap Costau***

- 3.2 Cyflwynodd CM grynodedb o ganlyniadau dros dro 2016. Esboniodd CM fod y rhain wedi'u seilio ar fersiwn ddrafft Cyfarwyddiadau Pensiynau Gwasanaethau Cyhoeddus (Prisiadau a Chap Costau Cyflogwyr) (Diwygio) 2018 a gyhoeddwyd gan Drysorlys EM ar 6 Medi. Roedd disgwyl y byddai'r Cyfarwyddiadau wedi'u cwblhau ym mis Tachwedd er nad oedd GAD yn disgwyl iddyn nhw newid.
- 3.3 Disgrifiodd CM y broses brisio yr oedd GAD wedi'i chynnal i asesu cost y cynllun pensiwn er mwyn pennu cyfraddau cyfraniadau cyflogwyr (o 1 Ebrill 2019 hyd at 31 Mawrth 2023) a phrofi'r gost yng nghyd-destun y dull 'cap costau cyflogwyr' (a roddwyd ar waith i amddiffyn trethdalwyr). Roedd y cap costau cyflogwyr wedi'i bennu yn rhan o brisiad 2012 ac fe'i mynegwyd yn gyfradd o'r cyflog pensiwnadwy (17.1% ar gyfer y cynllun). Nodir yn Rheoliadau'r Cynllun os ceir amrywiad o 2% yn fwy neu'n llai na'r cap costau mae'n rhaid cymryd camau i sicrhau bod costau yn mynd yn ôl i'r lefel y cytunwyd arno. Mae costau i'r cynllun yn sgil y cap costau wedi gostwng i 12.3%.
- 3.4 Nododd CM fod Trysorlys EM wedi cyhoeddi adolygiad o gynllun y dull cap costau. Byddai'r adolygiad yn cael ei gynnal yn 2019 ac yn dod i ben mewn pryd ar gyfer prisiad 2020. Ni fyddai'n effeithio ar Brisiad 2016.
- 3.5 Esboniodd CM fod gyfradd gyfartalog o gyfraniadau cyflogwyr yng nghynlluniau 1992, 2007 a 2015 wedi'i chymhwyso er mwyn cyflwyno'r prif ddata mewn modd dealladwy i Fwrdd Cynghori Cymru. Cyfradd cyfraniadau cyflogwyr ym mhrisiad 2012 oedd 18.7%. Cyn unioni'r achos o dorri'r cap costau, gwelwyd bod y gyfradd cyfraniadau cyflogwyr wedi cynyddu i 23.9%. Byddai'r ffigwr hwn yn cynyddu ymhellach i 28.3% pe na byddai'r dewis diodyn o gynyddu'r gyfradd gronnus yn cael ei weithredu. Ychwanegodd MP nad oedd y newidiadau i Gyfradd Ostyngiad y Cyfraniadau Pensiwn a Addesir i ystyried Profiad (SCAPE) wedi'u cynnwys yn y cyfrifiad o'r cap costau, gan nad oedd aelodau'r cynllun yn rhannu holl risgiau'r cynllun. Roedd SCAPE felly ddim ond yn effeithio ar y gyfradd cyfraniadau cyflogwyr.
- 3.6 Dywedodd CB fod y sleid yn y cyflwyniad a oedd yn dangos prif effeithiau'r prisiad ar y gyfradd cyfraniadau cyflogwyr wedi bod yn hynod o ddefnyddiol i'r aelodau. Yr oedd wedi egluro bod y cynnydd mwyaf i'r gyfradd cyfraniadau cyflogwyr wedi digwydd oherwydd y newid mewn tybiaethau ariannol, hynny yw y

newid yng nghyfradd y SCAPE. Yr oedd yn amlwg na fyddai'r cynnydd a oedd yn ofynnol i unioni'r achos o dorri'r cap costau yn bosibl o fewn cyfraddau cyflogwyr presennol. Roedd hyn hefyd yn amlwg yn y llythyr a anfonodd Ysgrifennydd y Cabinet dros Lywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus at Brif Ysgrifennydd y Trysorlys. Nododd CB fod y newid i'r SCAPE yn fater sylweddol i gyflogwyr. Cytunodd HM fod y cyflwyniad yn ddefnyddiol i amlinellu prif effaith y canlyniadau a gofynnodd a ellid addasu sleid 12 y cyflwyniad i gynnwys Tabl A4 o'r llythyr ynglŷn â Chanlyniadau'r Prisiad, er mwyn ei rannu ag Awdurdodau Tân ac Achub. Dywedodd CM fod cyfrifiadau'r gyfradd cyfraniadau cyflogwyr a nodwyd yn y llythyr yn llawer mwy cymhleth ac wedi'u cyflwyno mewn fformat a oedd yn ofynnol gan y Trysorlys. Byddai ceisio cyflwyno'r wybodaeth hon mewn modd tebyg i'r sleid yn llawer anoddach.

3.7 Dywedodd KC wrth Fwrdd Cynghori Cymru fod Llywodraeth Cymru wedi cwrdd ar wahân â chyflogwyr ynglŷn â goblygiadau posibl y newid i'r SCAPE ar y cyfraddau cyfraniadau cyflogwyr. Amcangyfrifwyd y byddai cost y cynnydd i gyfraniadau cyflogwyr ar Gynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân oddeutu £6 miliwn y flwyddyn. Roedd Ysgrifennydd y Cabinet dros Lywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus wedi ymateb i lythyr gan Brif Ysgrifennydd y Trysorlys yn amlinellu ei ddisgwyliad y byddai Trysorlys EM yn ariannu'r holl gostau yn sgil newid 2018 i gyfradd ostyngiad y SCAPE yn 2019-20 ac mewn blynyddoedd wedi hynny. Er y bu rhywfaint o arwyddion o gyllid gan y Trysorlys, o leiaf o ran 2019-20, nid oedd cadarnhad bryd hynny ynglŷn â lefel y cyllid a pha un a fyddai unrhyw ddarpariaeth ar ôl 2019-20. Ar ôl cael cadarnhad gan y Trysorlys, byddai angen penderfynu ar y ffordd fwyaf effeithiol o ddyrannu'r cyllid (h.y. darparu'r cyllid ar ffurf grant uniongyrchol i'r awdurdodau tân ac achub neu trwy'r Grant Cymorth Refeniw Llywodraeth Leol ar gyfer 2019-20).

3.8 Cyfeiriodd CM at y prif ddewisiadau sydd ar gael i unioni'r achos o dorri'r cap costau fel y nodwyd yn y cyflwyniad. Roedd y rhain yn cynnwys newid y gyfradd gronnus, lleihau cyfraniadau'r aelodau, telerau cymudiad uwch, cynnydd mewn pensiwn dibynyddion, gwella telerau ymddeoliad cynnar, ac ailbrisio uwch mewn swydd (Enillion Wythnosol Cyfartalog).

3.9 Roedd effaith unioni'r achos o dorri'r cap costau trwy newid y gyfradd gronnus neu gyfraniadau'r aelodau wedi eu cyfrifo, ynghyd â'r effaith ddilynol ar gyfraddau cyfraniadau cyflogwyr. I unioni'r achos o dorri'r cap costau gan 4.8% yn llawn, byddai angen cynyddu'r gyfradd gronnus o 1/61.4 i 1/53.1. Byddai hyn yn arwain at gynnydd o 4.4% i'r gyfradd cyfraniadau cyflogwyr. Byddai angen gostyngiad o 4.8% i gyfraniadau'r aelodau, a fyddai'n arwain at gynnydd o 4.8% i gyfraddau'r cyflogwyr. Ni fyddai newidiadau i'r pedwar dewis arall yn cywiro'r achos yn llawn yn unigol, ac felly byddai angen cyfuniad o ddewisiadau.

3.10 Cyfeiriodd MP at lythyr gan Brif Ysgrifennydd y Trysorlys a oedd yn amlinellu nifer o ystyriaethau a arweiniodd Trysorlys EM i gredu y dylid unioni'r achos o dorri'r cap costau trwy gyfradd gronnus yr aelodau ac nid trwy leihau cyfraniadau'r aelodau. Fodd bynnag, ychwanegodd MP y dylai Bwrdd Cynghori Cymru ystyried yr holl ddewisiadau cyn cyflwyno'i argymhellion yn unol â hynny. Ategodd MP nad oedd disgwyl i'r Bwrdd Cynghori benderfynu ar y dewis a ffefrir yn y cyfarfod, ond ei fod yn awyddus i'r aelodau ddeall pob un o'r dewisiadau a'u

goblygiadau. Ychwanegodd KC fod Llywodraeth Cymru yn gobeithio y byddai'r Bwrdd Cyngori yn ystyried goblygiadau tymor hir, yn ogystal â buddion tymor byr rai o'r dewisiadau. Roedd Llywodraeth Cymru yn pryderu y byddai gostwng cyfraddau'r gweithwyr yn sylweddol yn awr yn pennu cynsail ar gyfer ateb tebyg pe byddai achos o dorri i'r gwrthwyneb yn y prisiad nesaf. Gallai hyn arwain at gynnydd i'r aelodau a fyddai'n dewis gadael y cynllun. Dywedwyd wrth yr aelodau bod Llywodraeth Cymru, trwy Drysorlys EM, wedi darparu grant ychwanegol i awdurdodau tân ac achub i ariannu'r diffyg rhwng incwm a gwariant. Roedd Trysorlys EM eisoes wedi awgrymu na fyddai'n cyllido gostyngiad i gyfraddau cyfraniadau cyflogeion.

3.11 Er nad oedd y dewisiadau wedi'u rhestru mewn unrhyw drefn benodol, gofynnwyd i'r aelodau nodi mai gwella'r gyfradd gronnus oedd y dewis diodyn. Gwnaeth aelodau y sylwadau cychwynol canlynol:

- Roedd GM yn siomedig na roddwyd cyfrifiadau ar gyfer pob un o'r dewisiadau a oedd ar gael i ddangos yr effaith ar gyfradd y cyflogwr. Fodd bynnag, nodwyd bod cyfrifiadau ar gyfer y dewisiadau hyn yn llawer mwy cymhleth. Roedd yn bwysig i'r aelodau fod yn eglur ynghylch y dewis a ffefrir cyn gofyn am gyfrifiadau actiwaraid a allai fod yn gostus.
- Awgrymodd AR y byddai gwella'r gyfradd gronnus, i bob pwrpas, yn fuddiol i'r telerau ymddeoliad cynnar i'r aelodau. Cadarnhaodd CM fod hyn yn wir ac esboniodd y byddai newid y gyfradd gronnus o fudd i bob aelod yn yr un modd pa un a fyddent yn ymddeol yn 55 mlwydd oed neu'n 60 mlwydd oed. Mewn cyferbyniad â hyn, byddai gwella'r ffactorau ymddeoliad cynnar eu hunain ddim ond o fudd i'r aelodau a fyddai'n dewis ymddeol cyn oedran pensiwn arferol.
- Nododd GM efallai mai newid y gyfradd gronnus yw'r dewis a ffefrir i gyflogwyr, ond ei bod yn debygol y byddai gweithwyr yn dewis lleihau cyfraniadau'r aelodau. Er bod potensial i gyfraddau cyfraniadau'r aelodau gynyddu yn y prisiad nesaf, efallai byddai'r aelodau yn croesawu ysbaid am bedair blynedd. Fodd bynnag, nid oedd Undeb y Brigadau Tân wedi diystyru unrhyw un o'r dewisiadau ar y cam hwn.
- Cydnabu CB fod y newid yn berthnasol i'r pedair blynedd nesaf a gofynnodd a oedd modd o unioni dros gyfnod hirach. Dywedodd CM fod angen unioni'r newid i'r gost yn y pedair blynedd nesaf, yn unol â chyfarwyddiadau Trysorlys EM. Soniodd KC am y trafodaethau sy'n parhau ynghylch cyflog diffoddwyr tân, a allai effeithio ar y prisiad nesaf. Dywedodd CM os bydd codiad cyflog yn uwch na'r disgwyl yn ystod cyfnod y prisiad nesaf, gallai arwain at effaith wrthdro ar yr achos o dorri'r cap costau (trwy'r to).
- Cyfeiriodd RF at y dewis i gynyddu'r gyfradd gronnus a gofynnodd a fyddai hyn yn peri i'r aelodau dorri eu Lwfans Oes. Cydnabuwyd y gallai hyn fod yn wir i rai o'r aelodau, yn dibynnu ar eu lefelau cyflog a ffactorau eraill fel codiad cyflog a dyrchafiad. Rhoddodd CM enghraifft a oedd yn awgrymu na fyddai unrhyw effaith, fodd bynnag, ar y rhai hynny ar raddfa cyflog diffoddwyr tân safonol. Y lwfans blynyddol ar hyn o bryd yw £40,000. Byddai diffoddwr tân

sy'n ennill £30,000 y flwyddyn yn cyfrannu £8,000 at ei bensiwn am un flwyddyn gronnus yng Nghynllun 2015, o'i gymharu â'r terfyn o £40,000. Pe byddai'r gyfradd gronnus yn cynyddu i unioni'r achos o dorri'r cap costau, byddai'r cyfraniad at y pensiwn yn cynyddu i £9,000.

- Gofynnodd CB sut byddai newid ffactorau cymudiad yn gweithio ac a fyddai'r dewis hwn yn berthnasol i'r holl aelodau, neu ddim ond y rhai sy'n ymddeol yn ystod y pedair blynedd nesaf. Esboniodd CM y byddai unrhyw newid o ran cymudiad ddim ond yn berthnasol i'r buddion a gronnir yn ystod y cyfnod y mae'r gyfradd gymudiad honno yn berthnasol iddo. Awgrymodd HM y gallai fod yn anodd i'r aelodau ddeall buddion o'r fath, yn arbennig os byddai ffactorau cymudiad yn newid yn rheolaidd yn ystod gwasanaeth yr aelodau.
- Nodwyd bod Llywodraeth Cymru wedi cyflwyno gwell ffactorau ymddeoliad cynnar eisoes.

3.12 Gwahoddodd MP weinyddwyr y cynllun i roi sylwadau ynglŷn â chymhlethdod gweinyddu'r dewisiadau amrywiol. Dywedodd Martin Morgan mai newid y gyfradd gronnus fyddai'r dewis symlaf gan y byddai'n cael ei wneud yn flynyddol. Byddai'r newid yn cael ei esbonio i'r aelodau mewn nodyn ychwanegol yn y Datganiad Blynyddol o Fuddion. Byddai newid y gyfradd cyfraniadau cyflogwyr yr un mor syml i'w weithredu gan na fyddai'n cynnwys unrhyw newidiadau i'r feddalwedd. Ychwanegodd Martin o safbwynt gweinyddu'r cynllun y byddai'n haws cyflawni un newid yn hytrach na chyfuniad o ddewisiadau niferus. Cytunodd Jennifer Kingsbury â Martin ac ychwanegodd fod cynlluniau pensiwn eisoes yn ddigon cymhleth.

3.13 Dywedodd MP wrth yr aelodau ei fod wedi siarad dros y ffôn â'r pwyllgor effeithiolrwydd o ran cost (is-bwyllgor Bwrdd Cynghori Lloegr) ar 3 Hydref a gwahoddodd CA i roi'r wybodaeth ddiweddaraf am y sefyllfa yn Lloegr.

### **Sefyllfa Prisiad 2016 yn Lloegr**

3.14 Esboniodd CA fod Bwrdd Cynghori Lloegr wedi pennu nifer o egwyddorion allweddol i'w cynorthwyo wrth ystyried y dewisiadau. Roedd hyn yn cynnwys tegwch rhwng yr aelodau, effaith ar yr aelodau a chyfathrebu â'r aelodau, baich gweinyddol ac effaith ar gostau o ran gofynion meddalwedd. Nododd Clair fod egwyddorion tebyg wedi'u nodi yn y ddogfen gysylltiedig i Fwrdd Cynghori Cymru. Darparodd CA grynodeb o ganlyniad y trafodaethau ynglŷn â'r dewisiadau yng nghyfarfod llawn Bwrdd Cynghori Lloegr ar 4 Hydref:

- **Newid i'r Gyfradd Gronnus** – Nid oedd Bwrdd Cynghori Lloegr wedi trafod y dewis diofyn yn fanwl iawn. Nodwyd y byddai'r dewis hwn yn arwain at y costau gweinyddol lleiaf, er y nodwyd pryderon ynglŷn â'r posibilrwydd dorri'r lwfans blynyddol.
- **Lleihau Cyfraniadau'r Aelodau** – roedd Bwrdd Cynghori Lloegr wedi mynegi pryderon ynglŷn â gostwng cyfraniadau'r aelodau yn sylweddol (roedd y ganran yn yr achos o dorri'r cap costau yn fwy yn Lloegr ac felly byddai'r effaith ar gyfraddau cyfraniadau yn fwy hefyd), a'r goblygiadau posibl ymhen pedair

blynedd pe byddai achos o dorri i'r gwrthwyneb, h.y. cynnydd sylweddol yng nghyfraniadau'r aelodau.

- **Telerau Cymudiad Uwch** – cydnabu Bwrdd Cynghori Lloegr y byddai'r dewis hwn yn gymwys am bedair blynedd yn unig, ac y byddai'n anodd i'r aelodau ei ddeall ac yn cyflwyno llawer llai o fuddion nag y byddai'r aelodau'n eu disgwyl yn y lle cyntaf.
- **Cyfran Dibynyddion** – diystyrododd Bwrdd Cynghori Lloegr y dewis hwn oherwydd ei fod yn gymhleth ac nid oedd yn cyflwyno buddion uniongyrchol nac ar unwaith i'r aelodau.
- **Gwella Telerau Ymddeoliad Cynnar** – roedd Bwrdd Cynghori Lloegr wedi diystyru hwn fel dewis ymarferol. Roedd y Bwrdd yn bwriadu gwneud sylw arno yn ei ymateb i'r Swyddfa Gartref ond nid mynd ag ef ymhellach. Nododd Clair fod Bwrdd Cynghori'r Alban wedi dod i'r un casgliad.
- **Ailbrisiu uwch mewn swydd** – cytunodd Bwrdd Cynghori Lloegr y byddai'r dewis hwn yn gwella'r achos dorri'r cap costau ond y byddai'n creu cymhlethdodau sylweddol i weinyddwyr ac aelodau'r cynllun.

3.15 Esboniodd CA fod Bwrdd Cynghori Lloegr hefyd wedi codi pryderon y gallai cynyddu'r gyfradd gronnus arwain dorri'r Lwfans Oes. O ganlyniad i hyn, roedd yn ystyried dewis dull cymysg a fyddai'n cynnwys lleihau cyfraddau cyfraniadau ac yn cynyddu cyfraddau cronnus. Byddai dewis Bwrdd Cynghori Lloegr yn archwilio cyfradd gronnus amrywiol a fyddai'n galluogi'r aelodau i ethol cyfradd gronnus o blith sawl dewis a gwneud cyfraniadau ar sail y gyfradd honno. Roedd dulliau tebyg eisoes yn bodoli yn y cynllun athrawon a'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol. Byddai'r dull yn caniatáu elfen o ddewis o ran cyfraniadau ar gyfer aelodau ar gyflog is ac yn rhoi dewisiadau eraill i'r aelodau hynny a oedd yn debygol o dorri eu lwfans blynyddol. Byddai angen i Fwrdd Cynghori Lloegr allu rhoi tystiolaeth i'r Trysorlys i ddangos na fyddai'r dewis hwn yn newid incwm y cynllun ac felly na fyddai'n effeithio ar gostau Trysorlys EM. Dywedodd CA fod Bwrdd Cynghori Lloegr wedi comisiynu mwy o gyngor gan yr actiwariadaid ar y dewis hwn. Roedd darparwyr meddalwedd wedi nodi y gallai newid y gyfradd gronnus, gan gynnwys cyfradd gronnus amrywiol, gael ei weithredu a'i roi ar waith erbyn y flwyddyn ariannol newydd.

3.16 Gofynnodd MP i Fwrdd Cynghori Cymru am ei safbwyntiau a pha un a ellid diystyru unrhyw ddewisiadau. Cyfeiriodd MP at y cyngor actiwaraidd ychwanegol yr oedd Bwrdd Cynghori Lloegr wedi gofyn amdano, a gofynnodd a fyddai Bwrdd Cynghori Cymru yn dymuno gwneud rhywbeth tebyg. Gofynnodd CM i'r aelodau nodi bod GAD yn gweithredu fel cynghorydd i Lywodraeth Cymru, nid i'r Bwrdd Cynghori. Dywedodd KC fod prinder cyllid ar gael gan Lywodraeth Cymru i gomisiynu rhagor o waith gan GAD. Er ei bod yn bosibl talu costau un neu ddau o ddewisiadau, nid oedd yn bosibl talu costau pob un. Fodd bynnag, roedd croeso i Fwrdd Cynghori Cymru geisio'i gyngor actiwariadaid annibynnol ei hun, ond byddai'n rhaid i'r Bwrdd dalu costau'r cyngor hwnnw.

3.17 Cytunodd yr aelodau y dylid archwilio cymysgedd o newid y gyfradd gronnus a lleihau cyfraniadau'r aelodau fel dewis. Awgrymodd yr aelodau y byddai o fudd cael gweld effaith mabwysiadu dull hyblyg. Ar sail hyn, cytunwyd y byddai GAD yn darparu cyfrifiadau dewisiadau posibl eraill i unioni'r achos o dorri'r cap costau trwy ddarparu dadansoddiad am bob 1% o ostyngiad a'r newid cyfatebol yn y gyfradd gronnus i bob un gyflawni'r cynnydd o 4.8% i'r cap costau, ynghyd ag effaith pob dewis ar y gyfradd cyfraniadau cyflogwyr. Hefyd, darparu dadansoddiad i'r gwrthwyneb i ddangos gwelliant yn y gyfradd gronnus mewn camau â'r newid cyferbyniol mewn cyfraniadau cyflogeion i gyflawni'r cynnydd o 4.8% i'r cap costau, ynghyd ag effaith pob dewis ar y gyfradd cyfraniadau cyflogwyr, wedi'i dalgrynnu i gyfanrif yn hytrach na phwynt degol.

**CAM GWEITHREDU: Llywodraeth Cymru i gomisiynu GAD i ddarparu mwy o gyfrifiadau cyn y cyfarfod nesaf ar y dewisiadau posibl i unioni'r achos o dorri'r cap costau ar sail cyfuniad o newid i'r gyfradd gronnus ac i'r gyfradd cyflogeion.**

3.18 Ateggodd MP, er y byddai'r gwaith dadansoddi ychwanegol yn canolbwyntio ar y newid i'r gyfradd gronnus a lleihau cyfraniadau'r aelodau, nid oedd y dewisiadau eraill wedi'u diystyru.

3.19 Cyfeiriodd MP at y dyddiad cau i Fwrdd Cynghori Cymru gyflwyno'i ymateb i Weinidogion Cymru erbyn 7 Rhagfyr ac i gytuno ar y newidiadau gofynnol i'r cynllun erbyn 1 Mawrth 2019. Ychwanegodd KC ei bod yn bosibl na fydd yr amserlen yn rhoi digon o amser i newid y rheoliadau i ddod â nhw i rym erbyn 1 Ebrill 2019 ac felly mae'n bosibl y bydd yn rhaid rhoi'r newidiadau i'r cynllun ar waith mewn modd ôl-weithredol.

#### **4. EITEM 4 YR AGENDA – CYFLOG PENSIYNADWY**

4.1 Dywedodd MP bod cyflwyniad llawn gwybodaeth am gyflog pensiynadwy wedi ei ddarparu yn y Gynhadledd Flynyddol ar Bensiynau Diffoddwyr Tân. Ychwanegodd CA fod y cynghorydd cyfreithiol i Fwrdd Cynghori Lloegr wedi llunio rhestr o egwyddorion arweiniol i'w cymhwyso i gyfraith arweiniol ar sail penderfyniadau'r Ombwdsmon Pensiynau. Cytunodd CA i rannu'r rhestr gydag aelodau Bwrdd Cynghori Cymru.

**CAM GWEITHREDU: Clair Alcock i ddarparu dolen at egwyddorion arweiniol o ran cyflog pensiynadwy i'r Weinyddiaeth i'w dosbarthu'n ehangach i Fwrdd Cynghori Cymru.**

4.2 Dywedodd KJ fod Awdurdod Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru wedi cael penderfyniad gan yr Ombwdsmon Pensiynau. Roedd hwn yn dweud bod lwfansau hyfforddi a lwfansau Chwilio ac Achub Trefol yn bensiynadwy ond nad yw lwfansau criwio dydd a chriwio hunan-amserlennu yn bensiynadwy. Roedd hyn yn wahanol i drefniadau presennol Awdurdod Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru, lle nad yw lwfansau hyfforddi a chwilio ac achub trefol yn bensiynadwy ond mae criwio dydd a chriwio hunan-amserlennu yn bensiynadwy.



4.3 Roedd yr awdurdod tân ac achub yn ystyried apelio yn erbyn y penderfyniad. Dywedodd GM fod Undeb y Brigadau Tân yn ystyried apelio mewn modd tebyg yn erbyn y dyfarniad ar ran yr ymgeisydd. Y dyddiad cau ar gyfer gwneud hynny oedd 22 Hydref 2018. Byddai diweddariad arall yn cael ei ddarparu yn y cyfarfod nesaf.

**CAM GWEITHREDU: Llywodraeth Cymru i roi Cyflog Pensiynadwy ar yr agenda ar gyfer y cyfarfod nesaf.**

## **5. EITEM 6 YR AGENDA – Y DIWEDDARAF GAN FYRDDAU PENSIWN LLEOL**

*Bwrdd Cynghori Lloegr ar y Cynllun*

5.1 Rhoddodd CA yr wybodaeth ddiweddaraaf am faterion ehangach Bwrdd Cynghori Lloegr. Y prif faterion yr oedd Bwrdd Cynghori Lloegr yn eu hystyried oedd:

- adolygiad meincnodi gwerth am arian Cynlluniau Pensiwn Diffoddwyr Tân i sicrhau effeithiolrwydd a chysondeb ar draws y 44 o awdurdodau tân ac achub
- llunio canllawiau cadarn ar gyflog pensiynadwy
- caffael mwy o seminarau codi ymwybyddiaeth o dreth yn sgil y sylwadau cadarnhaol a gafwyd ar ôl y seminarau blaenorol a ddarparwyd

5.2 Cyfeiriodd MP at yr arolwg a anfonwyd i'r awdurdodau tân ac achub yn Lloegr yn ymwneud â'r broses Datganiadau Blynyddol o Fuddion. Cytunodd CA i rannu'r canfyddiadau gyda Bwrdd Cynghori Cymru.

**CAM GWEITHREDU: Clair Alcock i rannu canfyddiadau Arolwg 2018 o'r Datganiad Blynyddol o Fuddion gyda Bwrdd Cynghori Cymru.**

5.3 Cyfeiriodd MP at gyflwyniad yn y Gynhadledd Flynyddol ar Bensiynau Diffoddwyr Tân ym mis Medi ar waith awdurdodau tân ac achub yn Nwyrain Canolbarth Lloegr i sefydlu bwrdd pensiynau lleol ar y cyd ar Gynllun Pensiynau Diffoddwyr, gan gynnwys Nottingham, Swydd Gaerlŷr a Derby. Cyfeiriwyd hefyd at ddull tebyg yng ngogledd Swydd Efrog lle'r oedd bwrdd pensiynau lleol ar y cyd wedi'i sefydlu ar gyfer yr Heddlu.

5.4 Dywedodd CA fod cyfarfod gweinyddwyr byrddau pensiwn lleol ledled Lloegr a Chymru wedi'i drefnu ar gyfer 18 Hydref. Byddai sylwadau yn dilyn y cyfarfod hwn wedi'u cynnwys yn hysbysiadau Cynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân a gaiff eu dosbarthu'n fisol.

### ***Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru***

5.5 Esboniodd HM fod bwrdd pensiynau lleol Gogledd Cymru yn cyfarfod deirgwaith y flwyddyn yn y gorffennol ond y bydd yn cyfarfod bob chwarter yn y dyfodol. Lluniwyd pecynnau ymsefydlu i'w rhoi i aelodau newydd y bwrdd pensiynau lleol. Roedd yr Ombwdsmon Pensiynau wedi cyrraedd penderfyniad ynglŷn â Chynllun Diwygiedig y system ar ddyletswydd yn ôl galw (RDS) pan oedd unigolyn wedi methu'r dyddiad cau ar gyfer ymuno â'r cynllun. Nid oedd penderfyniad yr Ombwdsmon Pensiynau wedi cefnogi'r gŵyn ac felly roedd o blaid Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru. Cytunodd HM i rannu'r penderfyniad gyda'r Awdurdod Llywodraeth Leol i'w gynnwys ar y rhestr o egwyddorion arweiniol ar gyfer cyflog pensiynadwy.

**CAM GWEITHREDU: Helen MacArthur i rannu canlyniad Achos yr Ombwdsmon gyda Clair Alcock.**

### ***Awdurdod Tân ac Achub Gorllewin a Chanolbarth Cymru***

5.6 Dywedodd MM fod Dangosyddion Perfformiad Allweddol wedi'u cytuno i fonitro perfformiad yng nghyd-destun y Cytundeb Lefel Gwasanaeth gyda Chaerfyrddin. Mae Awdurdod Tân ac Achub Gorllewin a Chanolbarth Cymru wedi bod yn gweithio gyda CA a Claire Hey ar feini prawf y Rheolydd Pensiynau. Ychwanegodd CA fod gwaith wedi dechrau ar ddatblygu canllawiau cydymffurfio â'r Rheolydd Pensiynau.

### ***Awdurdod Tân ac Achub De Cymru***

5.7 Dywedodd MMA fod Strategaeth a Fframwaith Hyfforddi yn cael eu datblygu i sicrhau bod gan holl Aelodau'r Bwrdd yr wybodaeth, y sgiliau a'r ddealltwriaeth ofynnol i'w galluogi i gyflawni eu swyddogaeth ar y Bwrdd. Roedd gwaith wedi dechrau hefyd ar ddatblygu Llawlyfr Byrddau Pensiwn Lleol i'r Aelodau.

## **6. EITEM 9 YR AGENDA – UNRHYW FUSNES ARALL**

6.1 Roedd y cyfarfod nesaf wedi'i amserlennu ar gyfer 5 Tachwedd. Gofynnodd MP a ddylid trefnu cyfarfod ychwanegol cyn i Fwrdd Cyngori Cymru gyflwyno'i argymhellion i Weinidogion Cymru, a oedd yn ofynnol erbyn 7 Rhagfyr.

6.2 Nododd yr aelodau amseriad y Byrddau Cyngori yn yr Alban a Lloegr a oedd wedi'u hamserlennu ar 1 Tachwedd a 5 Rhagfyr yn y drefn honno. Trefnwyd cyfarfod nesaf y pwyllgor effeithiolrwydd o ran cost (is-bwyllgor Bwrdd Cyngori Lloegr) ar 12 Tachwedd. Roedd yr aelodau'n cytuno y dylid trefnu cyfarfod arall yn ystod pythefnos olaf mis Tachwedd.

**CAM GWEITHREDU: Llywodraeth Cymru i drefnu cyfarfod arall yn ystod pythefnos olaf mis Tachwedd.**